

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Amddiffyn Oedolion sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth

Gwybodaeth angenrheidiol

Ffeithlen 13

(Mawrth 2017)

Ni all oedolion amddiffyn eu hunain a gofalu amdany'n nhw'u hunain bob amser. Mae rhai oedolion yn arbennig o agored i gael eu cam-drin ac i gael eu hamddifadu'n gyson o'u hawliau dynol. Mae camdriniaeth yn brofiad dyddiol i rai, a'n bwriad yw herio ac atal y gamdriniaeth hon a hyrwyddo hawliau oedolion sydd mewn perygl.

Hawliau pob unigolyn:

Mae gan bob unigolyn hawl i'r canlynol:

- Bywyd heb ofn
- Cael ei drin/ei thrin ag urddas
- Bod ei benderfyniadau/ei phenderfyniadau yn cael eu parchu, heb orfodaeth i wneud unrhyw beth yn erbyn ei (h)ewyllys.

Pwy sy'n 'oedolion mewn perygl'?

Ystyr oedolyn sydd mewn perygl yw un sydd

- yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny
- ag anghenion o ran gofal a chymorth (boed bod yr Awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio),
- yn methu amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu'r perygl o hynny, o ganlyniad i'r anghenion hynny.



Beth yw camdriniaeth?

Ystyr camdriniaeth yw pan fydd pobl yn cael eu cam-drin, eu niweidio neu pan fydd pobl eraill yn cam-fanteisio arnyn nhw, a gall gynnwys y canlynol:

- Camdriniaeth gorfforol megis bwrw, ysgwyd neu gamddefnyddio meddyginiaeth.
- Camdriniaeth rywiol megis gorfodi rhywun i fod yn rhan o weithgaredd rhywiol nad yw'n ei ddymuno ac nad yw wedi cydsynio iddo neu na allai fod wedi cydsynio iddo, neu y rhoddwyd pwysau arno/arni i gydsynio i hynny.
- Camdriniaeth emosynol neu seicolegol megis bygwth, iselhau, atal ffrindiau neu berthnasau rhag ymweld â rhywun, neu rwystro rhywun rhag cael gwasanaethau neu gymorth.
- Camdriniaeth ariannol megis dwyn arian rhywun, twyll, neu gam-fanteisio.
- Esgeulustod megis anwybyddu anghenion meddygol neu anghenion gofal corfforol, atal mynediad i wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg, a pheidio â gofalu am rywun yn iawn.

Ymhle y gall camdriniaeth ddigwydd?

Gall unrhyw oedolyn, boed yn ddyn neu fenyw, brofi camdriniaeth unrhyw le neu fod mewn perygl o gael ei gam-drin unrhyw le.

Beth i'w wneud?

Os ydych **chi** yn cael eich cam-drin, neu os ydych yn pryderu y gallai **rhywun rydych yn ei adnabod** fod mewn perygl o gael ei gam-drin, dylech siarad â rhywun.

Mae pawb yn gyfrifol am chwarae eu rhan er mwyn amddiffyn oedolion sydd mewn perygl.

Cynigir gwybodaeth a chyngor fel y gall yr unigolyn a'i deulu benderfynu pa gymorth ymarferol sydd ei angen neu pa gamau maen nhw'n dymuno eu cymryd. Os nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniad, gofalir eu bod nhw'n cael eu cynorthwyo a'u diogelu.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi gwybod am gamdriniaeth?

Os ydych yn riportio camdriniaeth dybiedig, bydd y wybodaeth a rowch yn cael ei gwerthuso. Ar adegau bydd angen casglu rhagor o wybodaeth. Gallai hyn olygu cydweithio â nifer o asiantaethau e.e. y gwasanaethau iechyd a'r heddlu. Bydd cymorth a chyngor yn cael eu rhoi ynghylch unrhyw bryderon a godwyd gennych, er mwyn sicrhau bod oedolion sy'n agored i gamdriniaeth neu niwed yn cael eu diogelu yn gyflym ac yn effeithiol.

Bydd yr hyn rydych yn ei ddweud wrthym yn cael ei drin yn sensitif.

Â phwy y dylid Cysylltu?

Os ydych chi yn cael eich cam-drin, neu os ydych yn pryderu y gallai rhywun rydych yn ei adnabod fod mewn perygl o gael ei gam-drin, dylech gysylltu â:

Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar: 0300 333 2222
(24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.)

Os ydych chi neu'r sawl sy'n cael ei gam-drin mewn perygl dybryd, dylech gysylltu â'r Heddlu drwy ffonio 999.

Os hoffech drafod pryder sydd gennych ynglŷn ag oedolyn sydd mewn perygl gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ymholiadau o ran Cyngor Diogelu, yn y ffyrdd canlynol:

Drwy ffonio: 01267 228944

Drwy e-bostio: Diogelu@sirgar.gov.uk

Ar-lein: www.carmarthenshire.gov.uk/Safeguarding (cliciwch ar 'Cymraeg')

Mae'r Tîm Diogelu ar gael o 9am tan 5pm o ddydd Llun tan ddydd Iau ac o 9am tan 4.30pm ar ddydd Gwener.

Sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth:

Cymorth i Fenywod

Dyffryn Aman	01269 597474
Caerfyrddin	01267 238410
Llanelli	01554 741212

Llinell Gymorth CALL (Llinell Cyngori a Gwranddo Cymunedol) – gyda'r hwyr a phenwythnosau yn unig

0800 132737

Shelter Cymru

0845 075 5005

Y Samariaid

0845 790 9090

Relate

0300 100 1234

Age Cymru Sir Gâr

01554 784080

Cymorth i Ddioddefwyr

0845 303 0900

Llinell Gymorth Gweithredu ynghylch Camdrin Pobl Hŷn (*Action on Elder Abuse*)

0808 8088 141

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

0300 7900 126

**Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras,
Braille neu ar dâp sain,
ffoniwch ☎ 01267 228703**

